# Defnyddio mwy nag un iaith gyda'ch plentyn

Mae 'dwyieithrwydd' yn golygu y gall person ddeall a defnyddio mwy nag un iaith.

Gall defnyddio mwy nag un iaith gael ei alw'n ddwyieithrwydd neu amlieithrwydd.

Mae bod yn ddwyieithog yn ased!

## Bod yn ddwyieithog

**Mae bod yn ddwyieithog yn ased (mantais)** oherwydd gall helpu plant i:

- Gysylltu â'u diwylliant
- Siarad ag aelodau o'u teulu
- Cymdeithasu gydag eraill.

Mae gan blant un iaith orau yn bennaf, a dyma'u **iaith dewisol.**

Mae gan blant dwyieithog **yr un siawns** o gael anawsterau wrth ddysgu siarad â phlant sydd ond yn dysgu un iaith.

## Pa iaith i'w defnyddio?

**Defnyddiwch yr iaith (neu'r ieithoedd) rydych chi'n hyderus ynddi (ynddynt)** bob amser, i wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r modelau gorau o eiriau a gramadeg i'ch plentyn (eich iaith dewisol).

## Beth i'w wneud:

- **Ymunwch â chwarae** eich plentyn a **dilyn ei arweiniad**.
- **Siaradwch am** beth mae eich plentyn yn ei wneud yn eith iaith dewisol.
- **Rhannwch lyfrau** yn y ddwy iaith. Peidiwch â phoeni am ddarllen y geiriau, gallwch **siarad am** y lluniau neu **greu stori**.
- Peidiwch â phoeni os yw eich plentyn yn cymryd amser i siarad yn un o'i ieithoedd, yn enwedig pan fydd yn mynd i rywle newydd. Mae'n rhan arferol o ddysgu iaith. **Rhowch amser** i'ch plentyn gyfathrebu a **pheidiwch â rhoi pwysau** ar eich plentyn i siarad.
- Cofiwch dderbyn a chanmol cyfathrebu ym mha bynnag iaith mae'r plentyn yn dewis ei defnyddio.

## Dyfyniad gan riant am fod yn ddwyieithog...

> “Mae'n ehangu’r meddwl. Mae'n cynnig ymwybyddiaeth bod lleoedd a phobl y tu hwnt i'r diwylliant uniongyrchol.

Cael rhagor o wybodaeth

Os ydych chi'n poeni, gofynnwch i'ch ymwelydd iechyd, gweithiwr chwarae, gofalwr plant neu ymarferydd ysgol am wybodaeth.